

Polisi Ystyriaeth Arbennig

Medi 2026

Cynnwys

1.	Cwmpas	3
1.1	Diffiniad a Chymhwysra	3
1.2	Gofynion sylfaenol	4
1.3	Absenoldebau ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn ardystio (asesiadau unedol)	5
1.4	Absenoldebau mewn asesiadau di-arholiad	5
1.5	Cymwysterau Galwedigaethol	5
2.	Sut i wneud cais am ystyriaeth arbennig	6
3.	Statws cais	6
4.	Sut mae marciau ychwanegol wedi'u cymhwyso	7
5.	Apeliadau	8
6.	Cyngor Pellach	8
7.	Rheoli fersiynau ac adolygu'r polisi	8

Polisi Ystyriaeth Arbennig

1. Cwmpas

Bwriad y polisi hwn yw rhoi dealltwriaeth i ganolfannau o'r gofynion sy'n ymwneud ag ystyriaeth arbennig ar gyfer ymgeiswyr y mae amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth wedi effeithio ar eu perfformiad mewn asesiad. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gymwysterau CBAC, gan gynnwys y rhai dan frand Eduqas, ac eithrio Lefel 3 Diploma Sylfaen Celf (addysgu am y tro cyntaf o 2017) lle mae'r trefniadau ar gyfer ystyriaeth arbennig wedi'u nodi yn y fanyleb.

Mae CBAC, fel aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), yn dilyn canllawiau'r CGC ar gyfer ystyriaeth arbennig fel y'u nodir yn '[Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig](#)'. Dilytir y canllawiau hyn gan holl Gyrrff Dyfarnu'r CGC ac mae'n sicrhau bod y gofynion wedi'u cymhwyso'n gyson. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â chanllawiau'r CGC. Mae'n ofynnol i ganolfannau gadw at ofynion y ddwy ddogfen.

Dim ond rhywfaint o gymorth y gall ystyriaeth arbennig ei roi i ymgeisydd sydd wedi'i effeithio gan amrywiaeth eang o anawsterau posibl, rhai emosiynol neu gorfforol, a allai ddylanwadu ar ei berfformiad yn ystod yr asesiadau. Ni all gael gwared ar yr anhawster y mae'r ymgeisydd yn ei wynebu. Mae hyn yn golygu y bydd rhai sefyllfaoedd lle na ddylai ymgeiswyr gael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster neu arholiad unedol. Y rheswm am hyn yw mai dim ond mân addasiadau y gellir eu gwneud i'r marc a roddwyd, a byddai gwneud addasiadau mwy yn peryglu safon y cymhwyster.

1.1 Diffiniad a Chymhwysterau

Ystyriaeth Arbennig yw addasiad ar ôl yr asesiad i farc neu radd ymgeisydd lle mae mater neu ddigwyddiad andwyol wedi effeithio'n sylweddol, neu ei fod yn rhesymol debygol o fod wedi gwneud hynny, ar allu ymgeisydd i sefyll asesiad neu i ddangos ei lefel arferol o gyrhaeddiad mewn asesiad. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth arbennig i ymgeisydd sydd wedi profi afiechyd, anaf neu ddigwyddiad arall dros dro sydd y tu hwnt i'w rheolaeth **ar adeg yr asesiad**. Dim ond pan fo ymgeisydd yn bodloni'r amodau canlynol y gellir rhoi ystyriaeth arbennig:

- ✓ mae wedi'i baratoi'n llawn ar gyfer asesiadau
- ✓ mae wedi cwblhau'r cwrs cyfan
- ✓ ni all ddangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r pwnc yn llawn oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth ar adeg yr asesiad(au)

Ni ellir gwneud cais am ystyriaeth arbennig os nad oedd yr ymgeisydd yn gallu datblygu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r pwnc oherwydd:

- ✗ absenoldeb yn ystod y cwrs
- ✗ ymuno â'r cwrs yn hwyr
- ✗ amharu ar addysgu a dysgu am unrhyw reswm

Mae canllawiau'r CGC (pennod 2) yn nodi'n glir y meini prawf cymhwysterau ar gyfer ystyriaeth arbennig.

Mae dau gategori o ystyriaeth arbennig:

- *Presennol ond dan anfantais*

- *Absennol*

Mae'r broses Ystyriaeth Arbennig yn caniatáu naill ai addasu'r marc a roddwyd i ymgeisydd yn achos asesiad *presennol ond dan anfantais* (gan nodi nad yw asesiadau seiliedig ar radd, megis llwyddo/methu, yn gymwys), neu gymhwyso marc neu radd a amcangyfrifwyd (a elwir hefyd yn 'aegrotat') yn achos absenoldeb ymgeisydd o asesiad.

Mae adran 4.3 [Canllawiau Ystyriaeth Arbennig y CGC](#) yn nodi: *Rhaid i staff y canolfannau ddilyn eu gweithdrefnau mewnol ar gyfer ymdrin ag ymgeiswyr sy'n teimlo'n sâl ar ddiwrnod yr arholiad* ac felly cyfrifoldeb y ganolfan yw penderfynu p'un a yw ymgeisydd yn ddigon iach i sefyll asesiad ar y diwrnod hwnnw ai peidio.

Lle mae anabledd ar ymgeisydd sy'n atal yr ymgeisydd hwnnw rhag ymgymryd ag asesiad, ac nad oes modd hwyluso'r mynediad hwnnw drwy wneud unrhyw fath arall o addasiad rhesymol, yna gellir ystyried eithriad fel Trefniant Mynediad yn unol ag adran 5.17 yng [nghanllawiau'r CGC Polisi Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol](#): mae'n rhaid i CBAC gymeradwyo hyn cyn yr asesiad, nid yw'n rhywbeth y dylid gofyn amdano ar adeg yr asesiad.

Bydd CBAC yn ystyried rhoi ystyriaeth arbennig *absenoldeb* i ymgeiswyr nad ydynt yn gallu rhoi cynnig ar asesiad neu ei gwblhau pan fydd anabledd hysbys yn gwaethygu ar adeg yr asesiad. Rhaid i gais canolfan am ystyriaeth arbennig ddangos bod trefniadau mynediad priodol/addasiadau rhesymol wedi'u hystyried er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl i'r ymgeisydd ymgymryd â/cwblhau'r asesiad.

1.2 Gofynion sylfaenol

Y gofynion sylfaenol ar gyfer cais ystyriaeth arbennig *absenoldeb* (a elwir hefyd yn raddio uwch) yw **un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o'r cymhwyster**. Bydd yr eithriadau canlynol yn berthnasol:

- Safon Uwch Unedol: un gydran/uned gyfan, sy'n isafswm o 15% o'r cymhwyster, wedi'i chwblhau gydag o leiaf un uned U2 wedi'i chwblhau
- Lefel T Gwasanaethau Adeiladu a Pheirianneg: is-gydran gyfan, gall hyn fod naill ai'n arholiad neu'n broiect wedi'i osod gan gyflogwr
- Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen: rhaid i'r ddwy gydran Her fod wedi'u cwblhau
- Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch: rhaid i'r Proiect Cymuned Fyd-eang a Phroiect Cyrchfannau'r Dyfodol fod wedi'u cwblhau, a'r tri Sgîl Penodol cyntaf ar gyfer y Proiect Unigol

Ni fydd y cymhwysterau canlynol yn gymwys i gael ystyriaeth arbennig *absenoldeb* ac felly, os na chaiff asesiad ei gwblhau, ni ellir rhoi gradd:

- Proiect Estynedig
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP): Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP): Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP): Ymarfer a Theori

1.3 Absenoldeb ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn ardystio (asesiadau unedol)

Ar gyfer asesiadau unedol a wneir yn ystod cyfres arholiadau cyn y gyfres ardystio, rhaid ail-gofrestru ymgeiswyr ar gyfer unrhyw unedau a gollwyd yn ystod y cyfle asesu nesaf. Oni bai bod anawsterau penodol yn codi, e.e. perfformiadau pâr/grŵp na ellir eu hailadrodd, ni roddir ystyriaeth arbennig.

1.4 Absenoldebau mewn asesiadau di-arholiad

Dim ond ar gyfer ymgeiswyr sydd â rhesymau dilys y gellir gwneud cais am ystyriaeth arbennig *absenoldeb*, a rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan y ganolfan. Ni fydd ymgeiswyr sy'n gwrthod rhoi cynnig ar Asesiad Di-arholiad, e.e. asesiad llafaredd, yn gymwys i gael ystyriaeth arbennig *absenoldeb*.

Pan fo absenoldeb ymgeisydd hefyd yn effeithio ar ymgeiswyr eraill, er enghraifft mewn trafodaethau neu berfformiadau pâr neu grŵp, dylid dilyn y weithdrefn isod.

- i. Dylai canolfannau wneud pob ymdrech i aildrefnu asesiad di-arholiad yn y lle cyntaf, gan nodi y gallai fod yn bosibl o hyd i asesiad grŵp ddigwydd os yw 1 person yn absennol, yn amodol ar ofynion manyleb unigol ar isafswm niferoedd o fewn grwpiau, a dylai'r ganolfan ystyried a yw hyn yn briodol ar adeg yr asesiad gwreiddiol.
- ii. Lle bo'n bosibl, dylai'r ganolfan ystyried defnyddio un neu fwy o aelodau o'r grŵp nad ydynt yn cael eu hasesu, er enghraifft athro, cynorthwydd addysgu neu actor nad yw'n cael ei asesu. Ni ddylai'r person hwn fod yn gyfrifol am asesu'r dasg asesiad di-arholiad. Dylai canolfannau gyfeirio at fanyleb y pwnc unigol ar gyfer unrhyw ofynion pwnc-benodol.
- iii. Os yw'r ganolfan wedi ystyried y camau uchod, ac os nad yw'r asesiad wedi gallu cael ei gynnal o hyd, (os nad yw'r ymgeisydd yn ardystio yn y gyfres hon) dylai'r ganolfan ystyried cofrestru'r ymgeisydd yn y gyfres ddilynol.
- iv. Os nad yw cofrestru yn y gyfres ddilynol (os nad yw'r ymgeisydd yn ardystio yn y gyfres hon) yn ymarferol, gellir rhoi ystyriaeth arbennig *absenoldeb*. Rhaid i ganolfannau wneud cais drwy [Ffurflen 10 CGC](#). Gellir hefyd defnyddio hon ar gyfer ceisiadau grŵp, h.y. pan fo'r un mater yn berthnasol i nifer o ymgeiswyr. Dylai'r cais gynnwys y canlynol:
 - y rheswm dros wneud cais am ystyriaeth arbennig absenoldeb
 - manylion ailgynnig/ailgynigion
 - pam na ellid defnyddio aelodau nad oedd yn cael eu hasesu (lle y bo'n briodol), ac
 - esboniad grymus pam na fydd yn ymarferol ail-gofrestru yn y gyfres ddilynol.

Pan gaiff ei gymeradwyo gan CBAC, bydd cais yn cael ei gadw ar ffeil a bydd rhagamcaniad absenoldeb yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol ar ddiwedd y gyfres ardystio: mae hyn er mwyn gallu cyfrifo rhagamcaniad o berfformiad ymgeisydd ym mhob uned o fewn y cymhwyster. Rhaid i'r ganolfan hefyd ail-gofrestru'r ymgeisydd ar gyfer yr unedau a gollwyd yn y gyfres ardystio fel y gellir cymhwyso rhagamcaniad absenoldeb.

Lle nad yw absenoldeb ymgeisydd yn effeithio ar ymgeiswyr eraill, e.e. ar gyfer tasgau unigol, dylai canolfannau ddilyn y weithdrefn a nodwyd uchod, gan hepgor cam ii).

1.5 Cymwysterau Galwedigaethol

Bydd penderfyniad CBAC i roi ystyriaeth arbennig mewn cymwysterau galwedigaethol yn seiliedig ar ffactorau gan gynnwys difrifoldeb yr amgylchiadau, dyddiad yr asesiad a natur yr asesiad. Mae canllawiau'r CGC ar gyfer ystyriaeth arbennig yn dal i fod yn berthnasol, ond mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl na ellir rhoi ystyriaeth arbennig pan fo:

- angen dangos cymhwysedd ymarferol ar gyfer asesu;
- rhaid bodloni'r meini prawf asesu yn llwyr;
- unedau neu gwmwysterau yn rhoi 'Trwydded i Ymarfer'

Lle bo asesiad heb ei amserlennu wedi'i golli (e.e. prawf ar alw neu bortffolio o dystiolaeth), dylai'r ganolfan gynnig cyfle i'r dysgwr gwblhau'r asesiad yn ddiweddarach.

2. Sut i wneud cais am ystyriaeth arbennig

Ni all CBAC dderbyn ceisiadau am ystyriaeth arbennig gan ymgeiswyr na rhieni/gofalwyr. Rhaid i'r ganolfan wneud pob cais a rhaid iddo gael ei gefnogi gan aelod o'r uwch dîm arwain. Rhaid i dystiolaeth ategol fod ar gael ar gais.

Dylai ymgeiswyr preifat gysylltu â'r ganolfan gofrestru er mwyn iddynt allu cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig ar ran yr ymgeisydd preifat.

Rhaid i bob cais am ystyriaeth arbennig gael ei wneud yn unol â'r terfynau amser cyhoeddus. Cyhoeddir terfynau amser ystyriaeth arbennig pob cyfres yn y ddogfen [Dyddiadau Allweddol](#) ar wefan CBAC. Nid oes sicrwydd y bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y terfyn amser yn cael eu prosesu cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl diwrnod y canlyniadau yn cael eu hystyried.

- Ar gyfer asesiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu, gall canolfan wneud cais am ystyriaeth arbennig ar ran ymgeisydd gan ddefnyddio'r platfform ystyriaeth arbennig ar-lein ar [Porth CBAC](#).
- Ar gyfer gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad, gall canolfan wneud cais am ystyriaeth arbennig drwy lenwi [Ffurflen 10 CGC](#) ac anfon hon dros e-bost at ystyriaetharbennig@cbac.co.uk.
- Pan fydd ymgeisydd yn sefyll mwy nag un asesiad, nid oes angen cyflwyno ceisiadau unigol bob tro. Os effeithiwyd ar yr ymgeisydd yn yr un ffordd mewn mwy nag un asesiad, cynghorir canolfannau i aros nes bod yr asesiad olaf yn y gyfres honno wedi'i gynnal, ac yna cyflwyno un cais i ymdrin â'r holl gydrannau/unedau yr effeithiwyd arnynt.
- Pan fydd yr un mater yn effeithio ar sawl ymgeisydd ac i'r un graddau o fewn yr un asesiad, nid oes angen cyflwyno ceisiadau unigol ar gyfer pob ymgeisydd. Gellir gwneud cais grŵp drwy Porth CBAC ar gyfer asesiadau wedi'u hamserlennu, neu drwy [Ffurflen 10 CGC](#) ar gyfer gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad.

3. Statws cais

Ar gyfer ceisiadau ar-lein, gall canolfannau wirio statws y cais drwy'r porth ar-lein. Bydd hyn yn nodi p'un a yw wedi'i dderbyn, wedi'i wrthod, yn aros neu wedi'i dynnu'n ôl.

Mae'r statws fel a ganlyn:

- Wedi'i dderbyn: mae'r cais wedi'i gymeradwyo, a bydd yr addasiad perthnasol yn cael ei gymhwyso
- Wedi'i wrthod: nid yw'r cais wedi'i gymeradwyo
- Yn aros: mae'r cais wedi'i gyflwyno, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Dîm Gofynion Arbennig CBAC
- Yn aros – mae angen tystiolaeth: rhaid i'r ganolfan ddarparu rhagor o wybodaeth a/neu dystiolaeth i gefnogi'r cais
- Tynnwyd yn ôl: mae'r cais wedi'i dynnu'n ôl

Pan fo ystyriaeth arbennig wedi'i chymhwyso, bydd symbol @ yn dangos wrth ymyl gradd yr ymgeisydd yn yr adran Canlyniadau ar Porth CBAC. Nid yw slipiau canlyniadau wedi'u hargraffu yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at ystyriaeth arbennig.

4. Sut mae marciau ychwanegol wedi'u cymhwyso

Wrth gymhwyso ystyriaeth arbennig, ni all CBAC ddefnyddio graddau/marciau a ragfyngwyd gan y ganolfan. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei asesu yn ôl yr un meini prawf a bod safon yr asesiad yn cael ei gynnal wrth roi marciau/graddau.

Bydd CBAC yn dilyn canllawiau'r CGC sy'n sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio gan bob Sefydliad Dyfarnu y CGC. Ar gyfer *ceisiadau presennol ond dan anfantais*, bydd canran fach (a elwir hefyd yn dariff) yn cael ei chymhwyso at y marc a roddwyd, gydag uchafswm o 5% o farciau crai yr asesiad. Mae'r ganran a gaiff ei chymhwyso yn cael ei phennu drwy ddefnyddio'r canllawiau y cytunwyd arnynt gan holl Sefydliadau Dyfarnu y CGC. Ni ellir cymhwyso tariffau ystyriaeth arbennig mewn modd cronrus, er enghraifft pan fo nifer o faterion yn effeithio ar ymgeisydd ar adeg yr asesiad. Dim ond un cais fesul ymgeisydd a fesul asesiad fydd yn cael ei dderbyn.

Pan gaiff marc ei amcangyfrifo yn achos cais ystyriaeth arbennig *absenoldeb*, bydd CBAC yn dilyn y dull a amlinellir yn y ddogfen: '[Methodolegau ystyriaeth arbennig ar gyfer rhagamcanu cymwysterau llinol ac unedig sy'n seiliedig ar farciau](#)'. Mae'r fethodoleg yn cymryd yn ganiataol y bydd yr ymgeisydd yn perfformio cystal (dim gwell, dim gwaeth) yn yr asesiad sydd â'r marc coll ag yn ei asesiadau eraill, o'i gymharu â'r garfan genedlaethol.

Ni fydd gwybodaeth am ystyriaeth arbennig yn cael ei dangos ar dystysgrifau canlyniadau nac mewn gwybodaeth a ddarperir i UCAS.

5. Apeliadau

Gall canolfan apelio yn erbyn penderfyniad am ystyriaeth arbennig naill ai o ran y tariff a roddwyd mewn cais *presennol ond dan anfantais*, neu'r marc/gradd a amcangyfrifwyd (aegrotat) mewn cais *absenoldeb*.

Rhaid gwneud apeliadau yn ysgrifenedig a'u cyflwyno i CBAC yn unol â [Chanllawiau Apeliadau y CGC](#) a [CBAC](#).

6. Cyngor Pellach

Dylai canolfannau gyfeirio at y polisi hwn ac at [ganllawiau'r CGC](#) yn y lle cyntaf. Os oes angen cefnogaeth neu gyngor pellach, yna gall canolfannau gysylltu â Thîm Gofynion Arbennig CBAC naill ai dros e-bost at gofynionarbennig@cbac.co.uk, neu ffonio 02920 265 155.

7. Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu'r polisi

Rheoli fersiynau	Dyddiad	Perchennog	Newidiadau	Adolygiad Nesaf
1.0	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio	Creu dogfen Polisi	Gorffennaf 2027